**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**Y FANYLEB PERSON**

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Cyllid, Caffael ac Eiddo |
| **TEITL Y SWYDD** | Swyddog Cynaliadwyedd |
| **GRADD** | Gradd 13 |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth/ Profiad** | Cymhwyster ôl-16 mewn maes perthnasol, e.e. cynaliadwyedd, adeiladu, rheoli ynni, datblygu cymunedol neu'n debyg | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*/**Proses Ddethol |
| | Cymhwyster ôl-radd mewn maes perthnasol, e.e. cynaliadwyedd, adeiladu, rheoli ynni, datblygu cymunedol neu'n debyg | Dymunol | Ffurflen Gais/Proses Ddethol |
| | Dealltwriaeth dda o egwyddorion sylfaenol effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau a'u dulliau adeiladu cynaliadwy | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*/**Proses Ddethol |
| | Dealltwriaeth dda o brif nodweddion amryfal dechnolegau adnewyddadwy a sut gellir eu defnyddio'n briodol gydag adeiladau | **Hanfodol*** | Ffurflen Gais/Proses Ddethol |
| | Dealltwriaeth neu brofiad o declynnau ôl-troed carbon i fusnesau | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais***/Proses Ddethol |
| | Dealltwriaeth o'r amcanion, ynghyd â diddordeb profedig, am y nodau y mae GTADC yn anelu at eu darparu ynghylch cynaliadwyedd a chreu sefydliad di-garbon | **Hanfodol*** | Ffurflen Gais/ Proses Ddethol |
| | Profiad o gynllunio, trefnu, amserlennu a rheoli | | |

Dyddiad y Crëwyd:
Awdur:

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyllidebau prosiectau<br><br>Y gallu a'r awydd i flaenoriaethu, gweithio yn unol â therfynau amser a chydbwyso amryfal flaenoriaethau<br><br>Bod ag agwedd greadigol ac arloesol at waith<br><br>Profiad o ymgysylltu cymunedol (yn enwedig â gwirfoddolwyr ac aelodau pwyllgorau) neu ymgynghori cymunedol<br><br>Profiad o ddarparu archwiliadau ynni, gan gynnwys arolygon safleoedd, dadansoddi data ynni ac ysgrifennu adroddiadau technegol<br><br>Profiad o olrhain cyllid, yn benodol y gallu i weithredu'n gyflym ar gyfleoedd ynghyd â denu cyllid ar gyfer cytundebau a grantiau<br><br>Profiad mewn platfformau cyfarfodydd ar-lein a gweminarau | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol | **Ffurflen Gais***/Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol |
| **Arddull Bersonol** | Profiad o weithio gyda phobl o amrediad eang o gefndiroedd, gan gynnwys grwpiau cymunedol<br><br>Profiad o ddarparu cynlluniau a arweiniwyd gan y gymuned, yn enwedig ar effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy<br><br>Gwybodaeth am ardal De Cymru a chysylltiadau â hi, o ddewis ar draws nifer o fentrau cymunedol ynghyd â rhai/neu rhai sydd wedi'u hysgogi gan gynaliadwyedd<br><br>Profiad o fonitro a gwerthuso prosiectau | **Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol | **Ffurflen Gais***/Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol |
| **Rhyngbersonol** | Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i fynegi gwybodaeth gymhleth mewn modd syml a chynhwysfawr a hynny i ystod o wahanol | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais***/Proses Ddethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynulleidfaoedd<br><br>Y gallu i weithio'n hyblyg gan gynnwys gweithio ar nosweithiau ac ar benwythnosau, yn unol â'r hyn sy'n cael ei chytuno | <br><br>Hanfodol | <br><br>Y Broses Ddethol |

**Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.**

**Bydd gofyn am wiriad gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) mewn achos cais llwyddiannus. Ni fydd meddu ar gofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i chi dderbyn swydd.**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall.**

Dyddiad y Crëwyd:
Awdur: